Babimini – Y Flwyddyn Gyntaf

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi hedfan! Pwy fyddai wedi meddwl mai tri o blant bach blwydd oed a llai, na fedrai gerdded heb sôn am siarad ond a ddaeth at ei gilydd ar Fore Gwener, 1 Gorffennaf 2010, fyddai'n lansio un o fentrau diweddara ein heglwys. Ymhen dim ar y bore hwnnw roedd y tri bach wedi troi llawr y festri yn fan chwarae lliwgar yn ystod sesiwn gyntaf un babimini.

"O'r ieuengaf i'r hynaf "yw un o ymadroddion poblogaidd ein Gweinidog ac yn sicr mae degau o fabis a'u rhieni / neinau a theidiau wedi cael hwyl a sbri yn mynychu babimini yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhwng 09.45 a 11.15 bob bore Gwener yn ystod tymor ysgol gall plant o dan dair oed a'u gofalwyr droi mewn i'r festri i chwarae, cymdeithasu a mwynhau dishgled a danteithion.

I'r plant mae sesiynau babimini yn gyfle i chwarae mewn hafan gartrefol; i'r sawl sydd yn gofalu amdanynt mae'n gyfle i rannu sgwrs a chwmni mewn awyrgylch hamddenol. Dros y deuddeng mis diwethaf 'rydym wedi croesawu plant bach o bob rhan o Gaerdydd, rhai â chysylltiad uniongyrchol â'n heglwys, eraill yn croesi'r trothwy am y tro cyntaf. Oherwydd yr eira mawr, bu'n rhaid canslo ein parti Nadolig, ond yn ystod y flwyddyn cawsom gyfle i ddathlu Gŵyl Ddewi a'r Pasg a'r plant wrth eu bodd.

Fel rhieni/gofalwyr rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Dianne Bartholomew am ei chefnogaeth ddiflino i'r fenter. Dianne sydd yn sicrhau bod lluniaeth iach ar gael i'r plant a'r oedolion bob dydd Gwener ac yn trefnu rota o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith. Diolch o galon i bawb fu'n cynorthwyo hyd yma. Os hoffech helpu, byddai Dianne wrth ei bodd yn clywed wrthych.

Braf yw gweld y festri yn llawn bwrlwm ar fore Gwener a'r plant a'r oedolion yn mwynhau cwmni ei gilydd. Cofiwch fod croeso i unrhyw un ymuno â ni. Hyd yn oed os nad ydych yn gofalu am fabi neu blentyn bach, galwch draw am ddishgled ac ymgollwch am eiliad neu ddwy yn niniweidrwydd y rhai ifanca' yn ein plith.

Eleri Morgan